

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 24ain, Mehefin 2019

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll. Jones, , Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Nerys Dobson, Cyng. John Owen, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng Austin Roberts

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 20fed Mai, 2019.

Materion yn codi o'r cofnodion

CEGIN WEN, LLANDDOGED

Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Mr Len Jackson o'r adran Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Cyfleusterau, Cyngor Sir Conwy, Cyng Austin Roberts ac aelodau o'r cyngor Cymuned i drafod cael golau ar y maes parcio Gegin Wen.

TARMACIO FFYRDD YR ARDAL

Dim diweddariad gan yr Adran Priffyrdd ar darmacio ffyrdd ardal Llanddoged a Maenan.

SWYDD WAG - CYNGHORYDD Y GYMUNED LLANDDOGED

Y broses hysysebu y swydd wag ar gyfer Cynghorydd Cymuned i Landdoged wedi dod i ben. Derbyniodd y clerc un enw Mrs Anwen Jones, Tan Celyn, Llanddoged, Llanrwst i gael ei ystyried i gael ei chyfethol gan y Cyngor.

Pasiwyd a penderfynwyd drwy godi dwylo fod y Cyngor yn unfrydol yn cyfethol Mrs Anwen Jones fel Cynghorydd Cymuned Llanddoged.

CAE CHWARAE MAENAN

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod y cae chwarae wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgaredd tynnu rhaff yn ddiweddar ac fod cerbydau wedi parcio ar y cae. Hefyd roedd yr aelod yr cyhoedd yn poeni am yr ysbwriel a gadawyd ar eu hol. Y Cadeirydd a Cyng. Arwel L. Jones am holi i mewn i'r mater ac adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r adran ERF yn Sir Conwy i gael torri gwair yn cae chwarae Maenan.

CAE CETYN, CAE CHWARAE Y PENTREF

Pryder fod cwn yn baeddu yn y cae chwarae Cae Celyn, Llanddoged. Pasiwyd i gael arwyddion 'DDIM CWN' i roi ar giad y cae chwarae.

CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2019.

Cyhoeddodd y clerc ei bod heb clywed dim gan y cyfrifydd BDO ynglyn ar archwiliad allanol i gyfrifon y cyngor sydd yn diweddau 31ain Mawrth, 2019. Bydd y clerc yn cysylltu gyda cwmni cyfrifwyr wythnos yma.

CAPEL SOAR, TYN Y BRYN, Ffordd TYRPEG UCHAF, LLANDDOGED

Y cyngor wedi derbyn nifer o gwynion am gyflwr adeilad Capel Soar, Tyn y Bryn, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged ar llanasat sydd yn creu hyllbeth(eyesore) i'r pentref. Pasiwyd i'r clerc gysylltu gyda'r Sir ac Cyng. Austin Roberts i weld os y gallent fod o gymorth i gysylltu gyda'r perchennog.

LLINELLAU MELYN WRTH TU ALLAN I'R YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Yn dilyn digwyddiad a godwyd yn ddiweddar ble roedd ceir wedi parcio ar draws y ffordd i'r ysgol Gynradd Llanddoged ac wedi achosi tagfeydd a creu trafferth i gerbydau a cherbydau achosion brys allu trafeilio drwy'r pentref. Pasiwyd a penderfynwyd y Cyngor Cymuned i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd y Sir i gael paenito llinell melyn ar y tro ar draws y ffordd i'r ysgol.

Cyhoeddodd y Clerc y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn fuan gyda'r Adran Priffyrdd ar safle i edrych i mewn i'r mater.

CYNNAL A CHADW

- 1) Tyllau yn y ffordd wrth Ffrith Uchaf, Maenan – y ffordd yma wedi gwaethygu yn fawr iawn.
- 2) Man pasio 'Layby' rhwng Pant Llin Bach, a Llidiart y Mynydd Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged dal heb cael ei lanhau.
- 3) Angen ail osod yr arwyddion ffordd ar groesffordd Tŷ Uchaf Maenan.
- 4) Angen ail osod arwydd Llwybr Cyhoeddus wrth Pont y Garth Maenan.
- 5) Cais i gael llinellau melyn ar draws y ffordd o'r ysgol Gynradd Llanddoged.
- 6) Angen tacluso a thorri y coed ym maes chwarae Cae Cety'n Llanddoged rhwng terfyn y cae a Maes Awel, Llanddoged.
- 7) Angen torri gwair wrth y arhosfa bws ac o gwmpas y fainc eistedd yn Penrhiw, Llanddoged.
- 8) Angen edrych cyflwr y ffordd sydd rhwng Tyn Gwern